# ProMo-Cymru Masnachol Cyf
# Mae popeth yn cychwyn gyda sgwrs

## Swydd Ddisgrifiad - Eiriolwr Gynghorwr Llinell Gymorth

| | |
|---|---|
| Cyflog: | **£24,410 - £28,627** |
| Lleoliad: | **Swyddfa Caerdydd a/neu weithio o gartref** |
| Oriau gwaith: | **Llawn amser, rhan amser** (gweithio ar system rota ar linellau cymorth sydd yn agored 7 diwrnod yr wythnos, 8yb tan hanner nos) |
| Gwyliau: | **25 diwrnod y flwyddyn (cyfatebiaeth llawn amser a pro rata os yn rhan amser)** |
| Cyfnod prawf: | **6 mis** |
| Hyd: | **Parhaol yn amodol ar gyllid** |
| Atebol i: | **Rheolwr Gweithrediadau Llinellau Cymorth** |

### Gweledigaeth:

Mae ProMo-Cymru yn gweithio i sicrhau bod pobl ifanc a chymunedau yn wybodus, wedi'u hymgysylltu, cysylltu a'u clywed.

### Ein Dull o Weithio:

Rydym yn gweithio'n gydweithiol i greu cysylltiadau rhwng pobl a gwasanaethau gan ddefnyddio creadigrwydd a thechnoleg ddigidol. Rydym yn cefnogi'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector i ddychmygu, profi a chreu gwasanaethau gwell.

Mae ProMo-Cymru yn gweithio gyda chymunedau drwy gyfathrebu, eiriolaeth, ymgysylltiad diwylliannol a chynhyrchiad digidol a chyfryngol. Mae dros 20 mlynedd o brofiad yn cyflawni prosiectau gwybodaeth ieuenctid digidol yn cyfarwyddo ein gwaith. Rydym yn rhannu'r wybodaeth yma gyda hyfforddiant ac ymgynghoriaeth, yn creu partneriaethau hir dymor sydd yn buddio pobl a sefydliadau.

Mae ProMo yn elusen gofrestredig ac yn fenter gymdeithasol; mae'r holl elw yn cael ei fuddsoddi'n ôl i mewn i'n prosiectau cymunedol.

## Amcan y Swydd:

Fel aelod gwerthfawr o'r Tîm Gweithredu Cymdeithasol byddech yn trosglwyddo gwasanaethau llinell gymorth gwybodaeth, cyngor, cymorth ac eiriolaeth i blant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol wedi'i selio ar hawliau ac yn canolbwyntio ar y person - gan gynnwys Meic / Llais a Dewis Pen-y-bont ar Ogwr / PECF/ MIEG

## Byddech yn:

- gweithio i sicrhau hawliau pobl
- grymuso a galluogi pobl i wneud penderfyniadau gwybodus
- cyfarpar pobl â'r sgiliau a'r wybodaeth i wneud newidiadau yn eu bywydau
- cynorthwyo i hyrwyddo gwydnwch, iechyd a lles pobl
- galluogi i leisiau pobl cael eu clywed i ddylanwadu ar newid a gwneud gwahaniaeth

## Am wybodaeth bellach ymwelwch â:

ProMo-Cymru: www.promo.cymru
Meic: www.meic.cymru
Llais a Dewis Pen-y-bont ar Ogwr: www.llaisadewispenybontarogwr.cymru
Porth Eiriolaeth Caerdydd a'r Fro (PECF): www.pecf.cymru
Mynediad i Eiriolaeth Gwent - www.mieg.cymru

## Cyfrifoldebau Penodol:

1. Llinell Gymorth

- Gweithio ar system shifft rota 7 diwrnod gan gynnwys penwythnosau, a nosweithiau (efallai adolygir hyn a'i newid lle bo angen)
- Ymateb ac ymdrin â chysylltiadau ar y ffôn, e-bost, neges testun a sgyrsiau ar-lein
- Ymdrin â chysylltiadau gan amrywiaeth eang o ffynonellau gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) plant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr, gweithwyr proffesiynol, dinasyddion pryderus.
- Ymdrin â chysylltiadau o ran amrywiaeth eang o anghenion a materion gofal cymdeithasol / cefnogol
- Ymateb i gysylltiadau a darparu gwybodaeth gywir, berthnasol ac addas a chyfeirio at adnoddau a theclynnau ar-lein/digidol
- Ymateb i gysylltiadau a chyfeirio unigolion i asiantaethau a gwasanaethau cyhoeddus a trydydd sector perthnasol yn ôl y galw ac fel sydd angen
- Ymateb i gysylltiadau a throsglwyddo cymorth ac / neu eiriolaeth wrth hwyluso hunan eiriolaeth, eiriolaeth anffurfiol, eiriolaeth ffurfiol,

darparu cynrychiolaeth uniongyrchol, cyfeirio at wasanaethau eiriolaeth annibynnol / statudol

- Ymdrin â chysylltiadau gyda phryderon diogelu a bygythiad i fywyd yn ôl y galw, ac mewn cytundeb â pholisïau a gweithdrefnau
- Darparu cefnogaeth ar alwad a dyletswydd ar sail cefnogaeth gyfoed mewn perthynas â diogelu, bygythiad i fywyd, a bod wrth gefn i'r staff llinell gymorth yn ôl y galw, ac mewn cytundeb â pholisïau a gweithdrefnau
- Cadw cofnodion ysgrifenedig addas, casglu data monitro, a recordio gwybodaeth berthnasol yn ôl y galw
- Cydweithredu gyda cheisiadau gan reolwyr a staff gweinyddol
- Cyflawni tasgau gweinyddol yn ôl y galw
- Gweithio'n hyblyg ac i gyflawni dyletswyddau rhesymol eraill yn ôl y galw

2. Rhwydweithio a Chyfathrebu

- Maethu a chadw perthynas gwaith da gyda grwpiau, gwasanaethau ac asiantaethau eraill
- Cysylltu a chyfathrebu'n effeithiol ac yn broffesiynol gydag amrywiaeth eang o unigolion, gweithwyr proffesiynol, a disgyblaethau
- Cynnal a hyrwyddo proffil positif o wasanaethau ProMo-Cymru i'r byd allanol
- Hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o wasanaethau ProMo-Cymru i'r byd allanol.
- Siarad, chyflwyno a chynnal gweithdai ble'n addas ac yn ôl y galw
- Trefnu arddangosfeydd a chyfrannu mewn digwyddiadau ble'n addas ac yn ôl y galw
- Rhannu llenyddiaeth a nwyddau ble'n addas ac yn ôl y galw
- Cyfrannu i gynnwys, ymgyrchoedd a gweithgareddau cyfryngau cymdeithasol (neu debyg), ble'n addas ac yn ôl y galw
- Cynnal a chadw at ffiniau proffesiynol addas

3. Dysgu a Datblygiad

- Derbyn a chysylltu gyda threfniadau cefnogaeth a goruchwyliaeth
- Mynychu, cymryd rhan a chysylltu gyda chyfnewidion ymarfer, hyfforddiant mewnol, cyfarfodydd tîm, ac unrhyw gyfarfodydd mewnol perthnasol ac addas eraill yn ôl y galw
- Gweithio'n annibynnol ac fel rhan o dîm
- Bod yn gyfrifol am ddysgu a datblygiad eich hun ynghyd â'r ddarpariaeth gan ProMo-Cymru
- Bod yn gyfrifol am iechyd, diogelwch a lles eich hun ynghyd â'r ddarpariaeth gan ProMo-Cymru

- Cefnogi eich cyd-weithwyr, gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) cyfoedion, gweithwyr dan hyfforddiant, profiad gwaith, gwirfoddolwyr, myfyrwyr, staff sesiynol, a chymryd rhan mewn dysgu cyfrannol ac ymarfer adlewyrchol
- Cymryd rhan mewn gwerthusiad blynyddol
- Bod yn ymwybodol a glynu at holl bolisïau a gweithrediadau, a'r Llawlyfr i Gynghorwyr.

Manylion y Person - Eiriolwr Gynghorwr Llinell Gymorth

| Gofyniad | Hanfodol | Dymunol | Sut Canfyddir / Asesir |
|---|---|---|---|
| Addysg/ Cymwysterau: | Addysg cynt, diweddar a phresennol a datblygiadau proffesiynol sydd yn berthnasol i'r swydd hon. | | Ffurflen gais |
| Dealltwriaeth / Ymwybyddiaeth / Gwybodaeth: | Eich dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a gwybodaeth o ran perthnasedd y:<br>- y CCUHP<br>- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant<br><br>Eich dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a gwybodaeth o ran perthnasedd polisi yn ymwneud â:<br>- iechyd meddwl a llesiant emosiynol<br>- llymder, tlodi ac amddifadedd<br><br>Eich dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a gwybodaeth o ran y gwasanaethau a'r adnoddau sydd ar gael i gyfarfod ystod eang o anghenion<br><br>Eich dealltwriaeth, ymwybyddiaeth a gwybodaeth o ran eiriolaeth | | Ffurflen gais a chyfweliad |
| Sgiliau/Gallu: | Eich gallu i gyfathrebu yn effeithiol gydag ystod eang o | | Ffurflen gais a |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | bobl gydag anghenion amrywiol ac mewn cyflyrau emosiynol amrywiol.<br><br>Eich gallu i gyfathrebu yn effeithiol wyneb i wyneb, ar y ffôn, trwy neges wib / sgwrs ar y we, neges testun ac e-bost<br><br>Eich gallu i gyfarfod anghenion pobl wrth roi gwybodaeth, cyngor a chymorth<br><br>Eich gallu i gefnogi hunan effeithiolrwydd pobl i gyflawni newid positif<br><br>Eich gallu i ymateb yn effeithiol i sefyllfaoedd annisgwyl / rhai nad ellir cynllunio na pharatoi amdanynt.<br><br>Eich gallu i gynllunio, rheoli a threfnu amser a gwaith eich hun, ac yng nghyd-destun gwaith tîm<br><br>Eich gallu i gofnodi a chadw cofnodion at ddibenion casglu data ac adroddiadau | Y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg | chyfwelia d |
| Profiad | Eich profiad o weithio gydag un neu fwy o'r canlynol:<br>- Plant a phobl ifanc (bregus / is-wasanaethwyd)<br>- Oedolion (bregus / is-wasanaethwyd)<br><br>Eich profiad o weithio ar y cyd gyda chyd-weithwyr, gweithwyr proffesiynol, aelodau'r cyhoedd, a thebyg | Profiad o weithio ar linell gymorth<br><br>Profiad o Eiriolaeth | Ffurflen gais a chyfwelia d |
| Priodweddau / Rhinweddau: | Seiliedig ar hawliau<br><br>Seiliedig ar werth<br><br>Hunan ymwybyddiaeth | | Ffurflen gais a chyfwelia d |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gofynion eraill: | | Y gallu i yrru car, mynediad i fodd trafnidiaeth bersonol | Ffurflen gais |

Bydd disgwyl i'r un sydd yn dal y swydd i ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau a thasgau rhesymol eraill fel sy'n ofynnol ac fel sydd ei angen, sydd efallai ddim yn cael ei nodi o fewn y swydd ddisgrifiad.

Gall y swydd ddisgrifiad yma fod yn destun i adolygiad a newidiadau i gynnwys y fath ddyletswyddau a chyfrifoldebau penderfynir mewn ymgynghoriad â'r un sydd yn dal y swydd. Nid yw'n fwriad iddo fod yn anhyblyg, ond dylid ei ystyried fel darparu fframwaith mae'r unigolyn yn gweithio iddo.

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government